# Asesiad Strwythuredig 2021: Trefniadau Cynllunio Gweithredol Cam 1 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Blwyddyn archwilio: 2021

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2360A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol gan Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn rhan o’r gwaith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i’r Senedd ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliadau hynny o ran eu defnydd o’u hadnoddau. Mae’r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â’i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori’r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw’r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân y mae gan y ddau ohonynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddi unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2021

Nid yw’r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti, mewn cysylltiad â’r adroddiad hwn.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai’r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi’r ymarfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â’r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio’r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn infoofficer@audit.wales.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Am yr adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Argymhellion 5

Adroddiad manwl

Maes a chwmpas Cynllun Chwarteri Tri-Pedwar 2020-21 7

Trefniadau ar gyfer datblygu cynlluniau gweithredol 8

Trefniadau ar gyfer monitro’r gwaith o gyflawni cynlluniau gweithredol 10

**Atodiadau**

Atodiad 1 – ymateb y rheolwyr i argymhellion yr archwiliad 12

# Adroddiad cryno

## Am yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau Asesiad Strwythuredig 2021 yr Archwilydd Cyffredinol ar y trefniadau cynllunio gweithredol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (y Bwrdd Iechyd). Mae ein Hasesiad Strwythuredig wedi ei gynllunio i helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod yn fodlon bod cyrff y GIG wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau o dan adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2014.

2 Mae'n ofynnol i gyrff iechyd gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd i Lywodraeth Cymru yn flynyddol. Ym mis Ionawr 2020, cyflwynodd cyrff iechyd gynlluniau, ar gyfer cyfnod 2020-2023, i'w cymeradwyo. Fodd bynnag, ataliodd Llywodraeth Cymru y broses er mwyn cymeradwyo cynlluniau i ganiatáu i gyrff iechyd ganolbwyntio ar ymateb i'r heriau digynsail a pharhaus a gyflwynir gan bandemig COVID-19.

3 Nododd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gylchoedd cynllunio byrrach ar gyfer cyrff iechyd sy'n cwmpasu 2020-21. Mae'r canllawiau'n nodi ystyriaethau allweddol o ran cynllunio, gyda'r gofyniad i gyrff iechyd lunio cynllun Chwarter un erbyn 18 Mai 2020, cynllun Chwarter dau erbyn 3 Gorffennaf 2020, a chynllun cyfunol sy'n cwmpasu Chwarter tri a phedwar erbyn 19 Hydref 2020.

4 Roedd y fframwaith cynllunio ar gyfer Chwarteri tri a phedwar 2020-21 yn cwmpasu'r gwaith o gynnal trefniadau cynllunio gweithredol effeithiol ac effeithlon mewn cyrff iechyd er mwyn arwain eu hymateb parhaus i'r pandemig, yn ogystal ag ymateb i bwysau'r gaeaf a goblygiadau pontio yr UE. Roedd angen i gyrff iechyd barhau i osod y sylfeini ar gyfer adferiad effeithiol y tu hwnt i 2020-21 hefyd.

5 Yn ein hadroddiad Asesiad Strwythuredig 2020, gwnaethom ystyried trefniadau cynllunio'r Bwrdd Iechyd ar gyfer datblygu cynlluniau Chwarteri un a dau. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried y trefniadau cynllunio sy'n tanategu datblygiad cynllun gweithredol ar gyfer Chwarteri tri a phedwar 2020-21 (Cynllun Chwarteri 3-4).

## Negeseuon allweddol

6 Yn gyffredinol, canfuom fod **trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer datblygu cynlluniau gweithredol yn effeithiol ar y cyfan, er nad oes ganddo'r prosesau angenrheidiol i fonitro nac i adolygu cynnydd wrth gyflawni ei flaenoriaethau.**

7 Cyflwynwyd Cynllun Chwarteri 3-4 y Bwrdd Iechyd i Lywodraeth Cymru o fewn yr amserlen ofynnol, yn cwmpasu'r meysydd angenrheidiol yng nghanllawiau'r fframwaith cynllunio a derbyniwyd y gwaith craffu gofynnol gan y Bwrdd, drwy ddefnyddio Seminarau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cynllunio, Pobl a Sicrwydd Perfformiad.

8 Mae dull gweithredu'r Bwrdd Iechyd wedi galluogi timau gweithredol i lywio'r broses gynllunio yn gynyddol, ond mae angen gwelliannau ychwanegol. Nid oes gan Gynllun Chwarteri 3-4 wybodaeth glir am gynnydd a wnaed ers y chwarteri blaenorol, nid yw'r cysylltiad â'r broses o ddatblygu cynlluniau ategol yn amlwg bob amser, ac mae'r gallu i gynllunio er mwyn cefnogi'r broses wedi ei ymestyn.

9 Adroddir i'r Bwrdd ar feysydd allweddol yng Nghynllun Chwarteri 3-4, ond nid oes gan y Bwrdd Iechyd y prosesau angenrheidiol eto i fonitro nac i adolygu cynnydd ei gynlluniau gweithredol.

## Argymhellion

10 Manylir ar yr argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad hwn yn **Arddangosyn 1**. Ceir crynodeb o ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion hyn yn **Atodiad 1**. Bydd Atodiad 1 yn cael ei gwblhau ar ôl i'r pwyllgor perthnasol ystyried yr adroddiad ac ymateb y rheolwyr.

**Arddangosyn 1: Argymhellion 2021**

| **Argymhellion** |
|---|
| **Cysoni cynlluniau**<br>A1 Nid yw cynllunwyr yn chwarae rhan ym mhob proses gynllunio ac mae'n rhaid iddynt ddibynnu ar eraill i sicrhau bod y cynlluniau'n gyson. Dylai'r Bwrdd Iechyd drefnu cyfrifoldebau unigol dros sicrhau bod prosesau cynllunio allweddol yn cael eu cysylltu'n effeithiol. |

**Argymhellion**

**Y capasiti cynllunio**

A2 Mae'r tîm cynllunio wedi mabwysiadu dull 'partneru busnes' i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r cynlluniau gweithredol chwarterol, sydd wedi gweithio'n dda, ond bu gorddibyniaeth ar un unigolyn yn y tîm cynllunio oherwydd cyfyngiadau capasiti. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu ei gapasiti cynllunio er mwyn sicrhau bod cadernid yn rhan o'r tîm, a bod yr arbenigedd a'r wybodaeth sydd eu hangen i gefnogi'r broses gynllunio yn cael eu datblygu ar draws holl aelodau'r tîm.

**Olrhain perfformiad**

A3 Nid yw Cynllun Chwarteri 3-4 yn rhoi manylion am y cynnydd a wnaed ar y camau gweithredu a gododd yn ystod y chwarteri blaenorol, er gwaethaf ymrwymiadau i wneud hynny. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys yr wybodaeth angenrheidiol i roi sicrwydd ynghylch cynnydd dros amser.

**Monitro ac adrodd**

A4 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd brosesau ar waith i olrhain y dasg o gyflawni ei gamau gweithredu a nodir yn ei gynlluniau gweithredol. Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu dull o olrhain y cynnydd o'i gymharu â'r camau gweithredu. Wrth wneud hynny, dylai'r Bwrdd Iechyd egluro'r cyfrifoldeb dros oruchwylio ar lefel y Bwrdd a'r Pwyllgor o ran monitro'r dasg o gyflawni cynlluniau, gan gynnwys Cynllun Blynyddol 2021-22.

# Adroddiad manwl

## Maes a chwmpas Cynllun Chwarteri Tri-Pedwar 2020-21

11 Ystyriodd ein gwaith faes a chwmpas cynllun Chwarteri tri-pedwar 2020-21 y Bwrdd Iechyd (Cynllun Chwarteri 3-4) yn unol â chanllawiau cynllunio Llywodraeth Cymru.

12 Canfuom fod **Cynllun Chwarteri 3-4 y Bwrdd Iechyd wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru o fewn yr amserlen ofynnol, gan gwmpasu'r meysydd angenrheidiol yng nghanllawiau'r fframwaith cynllunio ac y derbyniwyd y gwaith craffu gofynnol gan y Bwrdd, drwy ddefnyddio Seminarau'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cynllunio, Pobl a Sicrwydd Perfformiad.**

13 Ailddechreuodd y Pwyllgor Cynllunio, Pobl a Sicrwydd Perfformiad ei gyfarfodydd ym mis Mehefin 2020 ac mae wedi canolbwyntio ar nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys datblygu Cynllun Chwarteri 3-4. Roedd y Grŵp Tactegol Arian yn cadw golwg ar y cam datblygu, ac ymgynghorwyd â'r Drefn Reoli Aur yn rhan o'r broses[1]. Roedd Cynllun Chwarteri 3-4 yn ddarostyngedig i waith craffu ychwanegol drwy Seminar Bwrdd pwrpasol ar 15 Hydref, cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru ar ffurf drafft terfynol ar 19 Hydref. Cymeradwyodd y Bwrdd Gynllun Chwarteri 3-4 yn ôl-weithredol ar 26 Tachwedd.

14 Nodir prif gorff Cynllun Chwarteri 3-4 gan ddefnyddio termau lefel uchel. Mae'n ymdrin â'r gofynion a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn Fframwaith Gweithredu GIG Cymru ar gyfer Chwarteri 3 a 4 (2020-21). Er enghraifft, cynlluniau capasiti sefydliadol, cynlluniau gweithlu a chynlluniau cyllid. Mae'n gyson â chynllun gaeaf y Bwrdd Iechyd. Cynhwysir manylion sylfaenol, megis camau gweithredu, dangosyddion canlyniadau a pherthnasedd i'r pedwar niwed mewn atodiadau ar gyfer pob un o'r meysydd perthnasol. Mae'r atodiadau hyn yn gynhwysfawr, er bod y fformat a'r eglurder yn amrywio, er enghraifft, nid yw perthnasedd i'r pedwar niwed yn glir bob amser.

15 Mae Cynllun Chwarteri 3-4 yn disgrifio rhai meysydd ble mae atebion rhanbarthol i gapasiti a heriau'r gweithlu yn cael eu harchwilio a'u rhoi ar waith. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi nodi bod y cyfleoedd hyn wedi eu cyfyngu gan ddaearyddiaeth a chan bandemig COVID-19. Amlygodd Adolygiad o Gynllun Chwarter 2 gan Gymheiriaid yr Uned Cyflenwi Ariannol ddiffygion yn y gweithlu nad ystyrir yng Nghynllun Chwarter 2. Mae Cynllun Chwarteri 3-4 yn nodi nifer o risgiau i'r gweithlu a'r camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i'w lliniaru nhw.

16 Yn rhan o'r broses o gyflwyno Cynllun Chwarteri 3-4, cwblhaodd y Bwrdd Iechyd y Set Ddata Isafswm. Roedd rhai bylchau allweddol yn yr wybodaeth a gynhwysir yn

[1] Ym mis Mawrth 2020, dechreuodd y Bwrdd Iechyd ei gynllun digwyddiadau mawr a sefydlodd strwythur Gorchymyn a Rheoli cadarn, sy'n cynnwys Trefn Reoli Aur a gefnogir gan grŵp Arian (tactegol) a grwpiau Efydd (gweithredol) a nifer o gelloedd cyngor.

y Set Ddata Isafswm y bydd angen mynd i’r afael â nhw wrth i ddata ychwanegol, megis nifer y staff sy’n dychwelyd, gael eu casglu.

## Trefniadau ar gyfer datblygu cynlluniau gweithredol

17 Ystyriodd ein gwaith drefniadau’r Bwrdd Iechyd ar gyfer datblygu cynllun gweithredol i gefnogi ei ymateb parhaus i COVID-19 yn ystod Chwarteri tri a phedwar 2020-21.

18 Canfuom fod **dull gweithredu’r Bwrdd Iechyd wedi galluogi timau gweithredol i lywio’r broses gynllunio yn gynyddol, ond bod angen gwelliannau ychwanegol. Nid oes gan Gynllun Chwarteri 3-4 wybodaeth glir am gynnydd a wnaed ers y chwarteri blaenorol, nid yw’r cysylltiad â’r broses o ddatblygu cynlluniau ategol yn amlwg bob amser, ac mae’r gallu i gynllunio er mwyn cefnogi’r broses wedi ei ymestyn.**

19 Mae Cynllun Chwarteri 3-4 yn adeiladu ar y cynlluniau gweithredol, a’r broses a ddefnyddiwyd, ar gyfer Chwarter un a dau. Mae’r broses a ddefnyddir i ddatblygu Cynllun Chwarteri 3-4 yn mynd i’r afael hefyd â sylwadau a gafodd y Bwrdd Iechyd o Adolygiad gan Gymheiriaid yr Uned Cyflenwi Ariannol, sy’n nodi’r angen i sicrhau bod mwy o amser ar gyfer herio mewnol a rheoli ansawdd yn ystod y broses ddatblygu. Fodd bynnag, nid yw Cynllun Chwarteri 3-4 yn rhoi trosolwg o berfformiad y Bwrdd Iechyd o ran cyflawni ei Gynlluniau ar gyfer Chwarteri 1 a 2.

20 Mae’r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddefnyddio ei Strwythur Gorchymyn a sefydlwyd mewn ymateb i’r pandemig i ddatblygu ei gynlluniau gweithredol, ac mae datblygiad yn cael ei arwain fwyfwy gan y timau gweithredol. Er bod gan y Cyfarwyddwr Cyllid gyfrifoldeb interim dros y portffolio cynllunio ers mis Mai 2020, mae’r Prif Weithredwr a’r Cyfarwyddwr Gweithrediadau wedi bod yn arwain y gwaith o ddatblygu’r cynlluniau chwarterol ac mae’r Cyfarwyddwr Cyllid wedi bod yn goruchwylio’r tîm cynllunio. Wrth i’r Bwrdd Iechyd geisio rhoi’r gorau i’w Strwythur Gorchymyn, bydd yn bwysig na fydd y timau gweithredol yn colli lefel yr ymgysylltiad yn ystod y broses gynllunio. Dechreuodd Cyfarwyddwr Cyfeiriad Strategol a Chynllunio Gweithredol newydd yn ei swydd ym mis Ebrill 2021.

21 Mae’r dull cynllunio wedi cael cefnogaeth glir gan gyfarwyddwyr gwasanaethau ac mae wedi ei lywio gan gyfarfodydd wythnosol grŵp cadeirydd y Gorchymyn Efydd. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod y llywodraethu angenrheidiol ar gael yn rhwydd. Gweithiodd y tîm cynllunio drwy’r gofynion cynllunio gyda chadeiryddion y Gorchymyn Efydd, a nododd beth fyddai’r ymateb. Mae’r tîm cynllunio canolog wedi darparu cymorth mewn rôl ‘partner busnes’, ochr yn ochr â swyddogaethau galluogi eraill megis cyllid a’r gweithlu. Daeth y rhain at ei gilydd wedyn drwy Grŵp Llywio Cynllunio i lunio Cynllun Chwarteri 3-4. Fodd bynnag, mae’r tîm cynllunio canolog wedi ei gyfyngu gan gapasiti. Mae rhai o’r tîm wedi canolbwyntio ar fwrw ymlaen â’r gwaith cynllunio cyfalaf sydd ei angen i gyflawni gweledigaeth strategol tymor hwy y Bwrdd Iechyd, gan adael gweddill y tîm i ganolbwyntio ar ddatblygu’r

cynlluniau gweithredol gyda chymorth ychwanegol gan Swyddfa'r Rhaglen Drawsnewid. Mae hyn wedi golygu dibyniaeth drom ar y Rheolwr Cynllunio Strategol am ei arbenigedd mewn gweithio gyda chadeiryddion y grwpiau Efydd i ddwyn ynghyd y gwahanol feysydd cynllunio, ac am ei ddealltwriaeth o ofynion Llywodraeth Cymru.

22 Datblygwyd cynlluniau sy'n cefnogi Cynllun Chwarteri 3-4 hefyd drwy gelloedd strwythur Gorchymyn perthnasol ee y Gell Frechu, a thrwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Fodd bynnag, nid yw cynllunwyr yn ymwneud â'r holl gelloedd nag â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac felly maent yn dibynnu ar eraill i sicrhau bod y cynlluniau'n gyson. Er bod hyn wedi gweithio'n dda mewn rhai achosion, nid yw pob proses gynllunio wedi bod mor gysylltiedig â phosibl. Er enghraifft, datblygwyd Cynllun Diogelu'r Gaeaf Rhanbarthol Cyfansawdd Gorllewin Cymru, gyda'i bwyslais ar ddyrannu cyllid, drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol heb unrhyw gysylltiadau uniongyrchol â datblygiad cynllun Chwarter 3-4.

23 Yn ystod chwarteri 1 a 2, ymgymerodd y Bwrdd Iechyd â llawer iawn o waith i gynhyrchu ei Adroddiad Darganfod Strategol, a gipiodd yr arloesedd a'r ddysg yn ystod pandemig COVID-19. Arweiniodd y Grŵp Llywio Trawsnewid y gwaith a thrwy'r Grŵp Galluogi Strategol mae'n datblygu themâu strategol i sbarduno gweithrediad. Fodd bynnag, nid oeddem yn gweld cysylltiad clir bob amser rhwng y canfyddiadau a geir yn yr 'Adroddiad Darganfod' a Chynllun Chwarteri 3-4. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau'n fwy amlwg yng Nghynllun Blynyddol Drafft 2021-22, a ystyriwyd gan y Bwrdd yn ddiweddar. Mae cynlluniau i wneud darn o waith 'darganfod' arall er mwyn canolbwyntio ar yr hyn y mae'r staff yn ei ddysgu am adferiad. Bydd angen adlewyrchu canfyddiadau'r gwaith hwn yn y cynlluniau gweithlu sylfaenol i gefnogi'r gwaith o gyflawni cynlluniau blynyddol a thymor hwy y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2022 a thu hwnt.

24 Sefydlwyd y Grŵp Galluogi Strategol yn rhan o Raglen Drawsnewid y Bwrdd Iechyd yn 2019. Er bod seilwaith ehangach y rhaglen drawsnewid wedi newid yn ystod y pandemig, mae'r Grŵp Galluogi Strategol wedi parhau. Mae'n dwyn ynghyd y swyddogaethau galluogi ac mae wedi canolbwyntio ar feysydd megis datblygu digidol, sy'n rhan o'r agenda drawsnewid hirach. Yn rhan o adolygiad o strwythur pwyllgorau y Bwrdd Iechyd, gwnaed newidiadau i swyddogaeth y Grŵp Llywio Trawsnewid a'r Grŵp Galluogi Strategol a ddaw i rym o fis Mehefin 2021.

25 Mae Cynllun Chwarteri 3-4 yn seiliedig ar ragolygon parhaus o'r galw posibl am wasanaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi mewn modelu data yn ystod y pandemig ac mae cell fodelu wedi defnyddio rhagolygon â chanlyniadau eithaf cywir. Mae'r Gell Fodelu wedi bod yn edrych hefyd ar sut y gall helpu i gwblhau'r Set Ddata Isafswm ar gyfer y blynyddoedd i ddod, ac mae trafodaethau'n cael eu hehangu i gynnwys y grwpiau Efydd i weld pa ddata ychwanegol fydd eu hangen yn 2021-22.

26 Yn gyffredinol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymgysylltu'n dda â'i bartneriaid yn rhan o'r broses gynllunio. Bu gweithgareddau cynllunio ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, mewn cysylltiad â phrosiect ARCH, a'r fforymau cynllunio a

darparu. Mae'r rhain wedi galluogi trafodaethau ynghylch cynllunio gweithredol ar gyfer agweddau ar ofal acíwt a gefnogir gan gyfarfodydd wythnosol ar drawsnewid gwasanaethau a datblygu llwybrau clinigol ehangach. Mae timau cymunedol wedi bod yn edrych hefyd ar yr hyn y gallant ei wneud gyda'i gilydd ar draws y rhanbarth gyda'r bwriad o fwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn ystod 2021-22. Mae trafodaethau a gweithgareddau gyda phartneriaid rhanbarthol mewn cysylltiad â Chanolbarth Cymru wedi parhau hefyd yn ystod y pandemig.

27 Mae'r tri awdurdod lleol wedi chwarae rhan drwy'r Grŵp Gweithredol Integredig a'r strwythur Gorchymyn a ddefnyddiwyd i ddatblygu Cynllun Chwarteri 3-4. Mae hyn wedi galluogi persbectif rhanbarthol o ddechrau'r pandemig o ran cartrefi gofal, partneriaethau cymdeithasol ac ysbytai maes. Mae'r Cyngor Iechyd Cymuned hefyd wedi gallu cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch datblygu'r cynlluniau chwarterol, gyda gwahoddiadau agored i aelodau Cyngor Iechyd Cymuned fod yn bresennol yn nhrafodaethau seminar y Bwrdd.

28 Defnyddiwyd Cynllun Chwarteri 3-4 i gyflawni blaenoriaethau tymor byr yn unol â gofynion fframwaith Llywodraeth Cymru yn bennaf. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ganolbwyntio ar ei strategaeth tymor hwy Canolbarth a Gorllewin Iachach, ac mae gwaith sylweddol wedi ei wneud i ddatblygu'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer yr ysbyty newydd; mae gwaith hefyd wedi ei gwblhau i adnewyddu amcanion strategol y Bwrdd Iechyd, gan ystyried yr holl ymrwymiadau a wnaeth y Bwrdd yn flaenorol. Defnyddiwyd y rhain i nodi'r bwriadau cynllunio ar gyfer 2021-22 a thu hwnt, ac felly nid ydynt yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Chwarteri 3-4.

# Trefniadau ar gyfer monitro'r gwaith o gyflawni cynlluniau gweithredol

29 Ystyriodd ein gwaith drefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer monitro ac adrodd ar gyflawni Cynllun Chwarteri 3-4.

30 Canfuom fod **adroddiadau i'r Bwrdd ar feysydd allweddol yng Nghynllun Chwarteri 3-4, ond nad oes gan y Bwrdd Iechyd y prosesau angenrheidiol eto i fonitro nac i adolygu cynnydd ei gynlluniau gweithredol.**

31 Ceir adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd ar feysydd allweddol yng Nghynllun Chwarteri 3-4 drwy adroddiad COVID-19 i'r Bwrdd. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn yn darparu disgrifiad cyffredinol o weithgarwch yn hytrach na'r cynnydd o'i gymharu â chyflawni Cynllun Chwarteri 3-4. Parhawyd i gyflwyno yn fynych adroddiadau penodol ar sefyllfa ariannol a pherfformiad y Bwrdd Iechyd o'u cymharu â dangosyddion allweddol drwy'r Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig i'r Bwrdd a'i bwyllgorau perthnasol.

32 Er bod y trefniadau adrodd hyn yn effeithiol ar y cyfan, sicrhawyd y Pwyllgor Cynllunio, Pobl a Sicrwydd Perfformiad y byddai Cynllun Chwarteri 3-4 yn cynnwys adran i gadarnhau'r cynnydd mewn cysylltiad â'r camau a gynlluniwyd ar gyfer Chwarter 2. Er bod y Cynllun Chwarteri 3-4 yn cyfeirio'n ôl at iteriadau blaenorol a'r

cynnydd a wnaed mewn cysylltiad â thargedau yr Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig, nid yw'n nodi cyflawniadau Chwarter 2 yn fanwl.

33 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd ddull cyfunol o olrhain pob un o'r camau gweithredu o'r tri chynllun chwarterol. Mae cyrff iechyd eraill wedi rhoi tracwyr gweithredu ar waith, gan gynnwys manylion amserlenni cyflawni ac arweinwyr cyfrifol. Defnyddir y tracwyr i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd o'i chymharu â phob cam gweithredu sydd i'w adolygu gan bwyllgorau a Byrddau perthnasol.

34 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod nad yw'r Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig na Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn darparu fframwaith priodol ar hyn o bryd i fonitro'r modd y cyflawnir ei gynlluniau. Fodd bynnag, mae cynlluniau i ailadeiladu'r Adroddiad Sicrwydd Perfformiad Integredig yn rhoi cyfle i'w wneud yn fwy addas ar gyfer llywio'r Bwrdd yn hyn o beth, ynghyd â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd sydd wedi ei adfywio, a fydd yn adlewyrchu'r amcanion strategol newydd ar gyfer 2021-22 a thu hwnt.

# Atodiad 1

## Ymateb y rheolwyr i argymhellion yr archwiliad

**Arddangosyn 2: ymateb y rheolwyr**

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Cysoni cynlluniau**<br>A1 Nid yw cynllunwyr yn chwarae rhan ym mhob proses gynllunio ac mae'n rhaid iddynt ddibynnu ar eraill i sicrhau bod y cynlluniau'n gyson. Dylai'r Bwrdd Iechyd drefnu cyfrifoldebau unigol dros sicrhau bod prosesau cynllunio allweddol yn cael eu cysylltu'n effeithiol. | Yn ddiweddar, mae'r Bwrdd Iechyd wedi penodi Cyfarwyddwr Gweithredol newydd ar gyfer Datblygu Strategol a Chynllunio Gweithredol. Bwriedir i hyn gefnogi'r broses o integreiddio cynlluniau ar draws y Bwrdd Iechyd, yn enwedig rhwng y portffolio cynllunio strategol a'r portffolio gweithredol.<br><br>Mae'r Bwrdd Iechyd Prifysgol yn sefydlu Grŵp Rhaglen Gyflawni a Grwpiau Cyflawni Gweithredol newydd, sydd â chynrychiolaeth o'r Adran Gynllunio a nodau cyflawni ehangach y sefydliad. Bydd y rhain yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu ac o gyflawni'r amcanion cynllunio gweithredol, gan sicrhau bod cynlluniau'n cael eu cysoni'n gliriach.<br>(Gweler A4)<br>Bydd y Grŵp Llywio Cynllunio, a gyflwynwyd er mwyn datblygu Cynllun Blynyddol 2021/22, yn cael ei gryfhau i gynnwys cydweithwyr Gweithredol, a chaiff ei ddefnyddio fel fforwm i gynghori, adolygu a diwygio cynlluniau drwy'r broses o ddatblygu'r cylch cynllunio nesaf. | Cwblhawyd<br><br>Medi 2021<br><br>Medi 2021 | Y Cyfarwyddwr Gweithrediadau / Y Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Gofal Cymunedol a Hirdymor<br>Y Cyfarwyddwr Datblygu Strategol a Chynllunio Gweithredol |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | Mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu'r prosesau ar gyfer datblygu ein Cynlluniau Blynyddol / Cynlluniau Tymor Canolig Integredig – roedd hyn yn cynnwys sesiwn adolygu gyda'r Grŵp Llywio Cynllunio ym mis Gorffennaf 2021, a oedd yn ceisio ateb y cwestiwn: 'Gan fyfyrio ar y Grŵp Llywio Cynllunio dros y flwyddyn ddiwethaf, beth yw'r gwersi a'r gwelliannau y byddech yn eu hawgrymu ar gyfer y flwyddyn i ddod o ran sut y gall y Grŵp Llywio Cynllunio gefnogi'r dasg o ddarparu Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2022/25 erbyn diwedd 2021?'<br>O ganlyniad i hynny, rydym yn datblygu ein Cylch Cynllunio ar gyfer 2021/22 er mwyn sicrhau bod cynlluniau'n cael eu hintegreiddio'n well ar draws y Bwrdd Iechyd, yn enwedig oherwydd y bydd Cynllun 2022/25 yn gallu defnyddio Cynllun 2021/22 a'i elfennau craidd o'n Hamcanion Strategol a Chynllunio fel llinell sylfaen glir ar gyfer datblygu cynlluniau. Bydd papur yn cael ei gyflwyno i'r tîm Gweithredol cyn bo hir.<br><br>Hefyd, fel y nodwyd yn yr ymateb i argymhelliad 2, rydym yn adolygu capasiti'r Tîm Cynllunio, a fydd yn caniatáu i gynllunwyr gymryd rhan fwy uniongyrchol yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau ac yn sicrhau cysondeb ar draws cynlluniau. | Medi 2021 | Y Cyfarwyddwr Datblygu Strategol a Chynllunio Gweithredol |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| | Bydd sefydlu swyddogaeth newydd y Gyfarwyddiaeth Gynllunio - sy'n cynnwys Cynllunio Cyfalaf, Swyddfa'r Rhaglen Drawsnewid a Swyddfa Rheoli'r Rhaglen, a'r tîm Ymgysylltu - yn cefnogi integreiddiad ychwanegol ar draws y disgyblaethau hynny o dan y Cyfarwyddwr Gweithredol a benodwyd yn ddiweddar. | | |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Olrhain perfformiad**<br>A3 Nid yw Cynllun Chwarteri 3-4 yn rhoi manylion am y cynnydd a wnaed ar y camau gweithredu a gododd yn ystod y chwarteri blaenorol, er gwaethaf ymrwymiadau i wneud hynny. Dylai’r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys yr wybodaeth angenrheidiol i roi sicrwydd ynghylch cynnydd dros amser. | Bydd y systemau a’r prosesau a amlinellir yn A4 yn galluogi’r Bwrdd Iechyd i adlewyrchu a rhoi sicrwydd y bydd yn cyflawni yr hyn a nodir yn ei Gynllun Blynyddol a’i gynnydd tuag at gyflawni ei Amcanion Strategol.<br><br>Bydd y Bwrdd Iechyd yn adolygu’r cynnydd o’i gymharu â phob un o’i Amcanion Strategol a Chynllunio drwy’r strwythurau Llywodraethu diwygiedig. Mae adroddiadau sicrwydd wedi eu mapio ar Gynlluniau Gwaith y Pwyllgor, gan fynd at wraidd y meysydd sy’n peri pryder yn unol â chyfarwyddyd y Bwrdd neu’r Pwyllgor. (Gweler **Argymhelliad 4**)<br><br>Bydd adolygiad o’r camau allweddol a amlygir yng Nghynllun Blynyddol 2021/22 yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Datblygu Strategol a Chyflawni Gweithredol bob chwarter. Bydd hyn hefyd yn rhoi cyfle i ddysgu am yr hyn sydd / nad yw wedi llwyddo er mwyn cryfhau ein prosesau Cynllunio. | Cwblhawyd<br><br>Awst 2021 (ac yn parhau) | Ysgrifennydd y Bwrdd<br><br>Y Cyfarwyddwr Datblygu Strategol a Chynllunio Gweithredol |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Monitro ac adrodd**<br>A4 Nid oes gan y Bwrdd Iechyd brosesau ar waith i olrhain y dasg o gyflawni ei gamau gweithredu a nodir yn ei gynlluniau gweithredol. Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu dull o olrhain y cynnydd o'i gymharu â'r camau gweithredu. Wrth wneud hynny, dylai'r Bwrdd Iechyd egluro'r cyfrifoldeb dros oruchwylio ar lefel y Bwrdd a'r Pwyllgor o ran monitro'r dasg o gyflawni cynlluniau, gan gynnwys Cynllun Blynyddol 2021-22. | Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu Dangosfwrdd Sicrwydd Bwrdd a fydd yn cael ei adrodd i bob cyfarfod y Bwrdd o fis Medi 2021. Bydd hyn yn rhoi dadansoddiad lefel uchel ynghylch cyflawni Amcanion Cynllunio, mesurau perfformiad, risgiau a sicrwydd a fydd yn helpu i roi syniad o hyder mewn cysylltiad â'r Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei amcanion strategol. | Medi 2021 | Y Prif Swyddog Gweithredol |
| | Cymeradwyodd y Bwrdd strwythur newydd y pwyllgorau ym mis Mai 21, i'w weithredu yn Chwarter 2. Mae pob Amcan Strategol yn gyson â Phwyllgor lefel Bwrdd a fydd yn gyfrifol am geisio cael sicrwydd y bydd yn cyflawni ei Amcanion Cynllunio ym mhob Amcan Strategol. Mae adroddiadau sicrwydd wedi eu mapio ar Gynlluniau Gwaith y Pwyllgor, gan fynd at wraidd y meysydd sy'n peri pryder yn unol â chyfarwyddyd y Bwrdd neu'r Pwyllgor. | Cwblhawyd | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| | Cyflwynir strwythur Cyfarfod Cyflawni Gweithrediadau newydd yn Chwarter 2 i oruchwylio'r gwaith o gyflawni cynlluniau gweithredol, gan gynnwys yr amcanion hynny sydd yn y Cynllun Blynyddol. | Medi 2021 | Y Cyfarwyddwr Gweithrediadau/ Y Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Gofal Cymunedol a Hirdymor |

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.